

CYNGOR BRO LLANGELER – 25-02-2019

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Chwefror 25ain 2019 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **02/19 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. Marc Rees[yn abs y cadeirydd], Cynghorwyr: Delyth Evans, Richard Evans, Ken Howell, Brenda Jones, Nesta Jones, Dilwyn Smith, Adrian Thomas,. Clerc – Stella Jones
2. **02/19 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Jamie Ayres, John Crossley, Aled Eynon, Christopher Jones, John Wigley.
3. **02/19 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Materion yn Codi – 6.6i.03/18 Cyng. K Howell, D Smith, M Rees
4. **02/19 HEDDLU:** PCSO J Kedward a PC Awen Thomas – dosbarthwyd posteri am cyffuriau a dwedwyd bod Bws Cyffuriau yn mynd i fod yng Nghastellnewydd Emlyn ddydd Sadwrn 2ail o Chwefror 2019 rhwng 11yb a 3yp
5. **02/19 COFNODION:** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Ionawr 28ain 2019 yn Neuadd y Ddraig Goch,
Cynigydd – Cyng. A Thomas Eilydd – Cyng. D Smith
6. **02/19 MATERION YN CODI :**
 - 12.i.01/14. b)Audio Trail – dwedodd y Clerc bod Cyng. J Ayres wedi bod yn siarad a Gwasg Gomer, cyn penderfynu faint bydd eisiau argraffu rhaid cael gwybod beth fydd y gost o wahanol nifer o gopiau
 - 6.i. Pwyllgor y Parc – un gwelliant i wneud eto i'r les cyn ei fod yn barod i'w arwyddo, rhai aelodau o'r cyngor i edrych dros y les.
 - 7.xv.05/16 Caeau Canmlwyddiant – angen tynnu'r teils o'r wal y tu fewn ac allan a'i ail blastro[gofyn i Beni Davies bris i wneud y gwaith] ac yna y Clerc i ofyn i Rhodri Edwards beth yw siâp a maint y plac cyn penderfynu ble fydd orau ei osod
 - 10.11.07/16. Toiledau Parc Puw – angen trefnu i'r gwirfoddolwyr fynd at i beintio
 - 10.i.09/16 Parc Pentrecwrt – bydd y les yn cael ei pharatoi unwaith bydd y les arall wedi ei chwblhau.
 - 10.i.06/17 Tir Temple – dim mwy i adrodd ar hyn o bryd
 - 11.i.02/18 Prosiectau y dyfodol – Arwyddion Llwybrau Gŵlan – Clerc wedi cael pris i wneud y gwaith gan Mr Malcolm James o £400- cytunwyd y dylai'r gwaith fynd yn ei flaen.
7. **02/19 GOHEBIAETH:**
 - i. Environmental Guidance for Town & CC when managing your land
 - ii. ebost – ULIC –Bwletin Newyddion Ionawr 2019 – cylchlythyryd
 - iii. ebost – JONATHAN! – cylchlythyryd
 - iv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 21.01.19 - 25.01.19 – cylchlythyryd
 - v. Teulu Vieira Family, Half Moon – Carden o Ddiolch
 - vi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 28.01.19 - 01.08.19 – cylchlythyryd
 - vii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 04.02.19 - 08.02.19 – cylchlythyryd
 - viii. ebost – CSG – Galwad am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr – cylchlythyryd
 - ix. ebost – CSG – Cynllun ffioedd 2019-20 a gyhoeddwyd heddiw – cylchlythyryd
 - x. ebost – Cylchlythyr Ionawr Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd – cylchlythyryd
 - xi. ebost – CSG – Ymgynghoriad ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Drafft Sir Gaerfyrddin 2019 – cylchlythyryd
 - xii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 11.02.19 - 15.02.19 – cylchlythyryd
 - xiii. ebost – ULIC – Mapio'r Tir a'r Eiddo y mae'r Sector Cyhoeddus yn berchen arno – cylchlythyryd
 - xiv. ebost – ULIC – Aelodaeth – cylchlythyryd
 - xv ebost – ULIC – Pŵer solar cymunedol Cymreig – cylchlythyryd
 - xvi.ebost – CSG – Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) i gyflwyno Pleidleisiau yn 16 oed – cylchlythyryd
 - xvii.ebost – CSG – Ymgynghori ar Ymestyn Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) Cyngor Sir - cylchlythyryd
 - xviii. ebost – CTC – Parêd Dewi Sant – cylchlythyryd
 - xix. ebost – CSG – Fforwm Cyswllt, Neuadd y Sir 19.03.2019 – cylchlythyryd
 - xx. ebost – Age Cymru Sir Gar – cylchlythyr – cylchlythyryd
 - xxi. ebost – Llywod. Cymru – Cefnogaeth ariannu ar gael yn 2019-20 – cylchlythyryd
 - xxii. ebost – CSG – Paul Roberts, Cynllunio / Planning –
8. **02/19 CYNLLUNIO**
 - Cais Ymgynghori llaw**
 - W/38380 – Waunwthan, Saron SA44 5EJ – newid defnydd o weithdy argraffu a swyddfa, ac ystafell grefft,a lolfâ ymarfer ar gyfer deiliaid Waunwthan Cottage , Llety gwyliau , bydd safle parcio penodol – *dim gwrthwynebiad*
 - W/38271 – rhan o dir Temple Cottage, Felindre SA44 5HL – cais ôl-syllol i newid defnydd tir ar gyfer gosod carafân sefydlog ar gyfer defnydd preswyl – *barn yn anghytuno wedi cael ei anfon*

9. 02/19 MATERION ARIANNOL

Amcan Bris - Taliadau ar gyfer goleuadau troedffyrdd am 2019/2020	Ynni.....£5693.33
	C a Ch.....£11,194.46
	<u>TAW.....£3,377.56</u>
	<u>£20,265.35</u>

a. Anfonebau

- i . CYFIEITHU (dim angen) ar 25/02/2019£--.--
- ii. HIRIO NEUADD YR EGLWYS – cyfarfod 25/02/19£8.75
[caniatâd wedi ei roi i dalu'r uchod fel daw'r anfoneb fewn]
- iii. ULIC[Aelodaeth/Membership].....£514.00
- iv. CSG [Goleuadau troedffyrdd]£18,863.28
[CaCh.....£10,974.96 , Ynni £4,744.44, TAW£3,143.88]
- v. Joanne Witham, Pont Tyweli[difrod llifogydd Pont Tyweli].....£200.00

Arian yn y Banc ar 07/02/19£26,348.97

b. S/O

Cyflog y Clerc.....£550.00

c. Cais am Gefnogaeth Ariannol

Ambiwlans Awyr Cymru - £150

10. 02/19 MATERION ANGEN TRAFODAETH

Dim

11. 02/19 SYLWADAU'R CYNGHORWYR

- 1. Cyng B Jones – arwydd sy'n nodi Waungilwen yn pylu
- 2. Cyng D Evans – twll mawr yn yr hewl sy'n mynd lawr o Cefen Saron i Drefelin
- 3. Cyng A Thomas – Sbwriel wedi cael ei dympio ar ochr yr hewl ger yr Half Moon, Pont Tweli
- 5. Cyng R Evans – Cyngor Sir yn dal heb newid yr arwydd 20 i 30 ar yr hewl cyn dod i 'r cyffordd a ffordd osgoi Llandysul

12. 02/19 CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul nos Lun Mawrth 25ain 2019 am 7.30 yh.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.45yh

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad